

Crynodeb Gweithredol ar gyfer Negeseuon Pennawd a Chanlyniadau'r Deyrnas Gyfunol o 2007

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn astudiaeth unigryw o adnoddau naturiol cefn gwlad y DG, sy'n cynnwys astudiaeth maes fanwl o gynefinoedd, llystyfiant, dŵr croyw a phriddoedd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Cynhelir astudiaeth ar wahân o gynefinoedd yng Ngogledd Iwerddon a, lle bo hynny'n bosibl, cyfunir y canlyniadau er mwyn adrodd dros y DG gyfan. Defnyddir y canlyniadau mewn ymchwil gwyddonol ac i drwytho datblygiad polisi ar gyfer rheoli cefn gwlad.

Cynhaliwyd yr Arolwg Cefn Gwlad cyntaf ym 1978 ac fe'i datblygwyd a'i ehangu bob tro y cafodd ei ailadrodd yn 1984, 1990, 1998 a 2007. Cesglir y data gan ddefnyddio dulliau gwyddonol cadarn er mwyn gallu cymharu canlyniadau pob arolwg â'r rhai blaenorol. Mae casglu data dros gyfnod yn caniatáu canfod ac astudio'r newidiadau graddol a chynnil yng nghefn gwlad y DG a'u cysylltu ag achosion posibl. Yn 2007, casglodd y timau arolwg ddata o 591 o sgwariau sampl (1.0km x 1.0km) ym Mhrydain a 288 o sgwariau sampl (0.5km x 0.5km) yng Ngogledd Iwerddon. Cofnodwyd y data maes hyn yn electronig gan ddefnyddio technoleg cipio data digidol a ddatblygwyd yn arbennig.

Mae casgliadau'r arolwg diweddaraf ar lefel y DG yn cael eu cyhoeddi mewn dau adroddiad:

- Yr Arolwg Cefn Gwlad – Negeseuon Pennawd y DG o 2007
- Yr Arolwg Cefn Gwlad – Canlyniadau'r DG o 2007

Mae nifer gyfyngedig o adroddiadau "Negeseuon Pennawd y DG o 2007" ar gael fel copi caled wedi'i argraffu (cysylltwch â countrysidesurvey@ceh.ac.uk) ac mae'r ddau ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Arolwg Cefn Gwlad www.countrysidesurvey.org.uk

Defnyddiodd Negeseuon Pennawd y DG y canlyniadau o 2007 i ateb cyfres o gwestiynau sydd wedi codi o Arolwg Cefn Gwlad blaenorol neu sydd wedi eu hysgogi gan ddatblygiadau polisi diweddar. Ni fwriedir iddynt ymdrin â holl ganlyniadau'r Arolwg Cefn Gwlad, ond yn hytrach i gyflwyno casgliadau allweddol fel cyflwyniad i'r canlyniadau. Ymhlith y cwestiynau yr ymdrinnir â nhw mae:

- A yw amrywiaeth fiolegol yng nghefn gwlad wedi newid?
- A yw arwynebedd a chyflwr Cynefinoedd Eang wedi newid?
- A yw llygredd awyr a maetholion wedi effeithio ar blanhigion a phriddoedd?
- A yw'r crynodiad carbon mewn priddoedd (0-15cm) wedi newid?
- A ddarganfuwyd effeithiau newid yn yr hinsawdd?

Mae Canlyniadau'r DG o 2007 yn cyflwyno crynodeb mwy systematig o'r darganfyddiadau o 2007 yn ôl mathau o gynefin ac yn cynnwys trosolwg o'r Darlun Cenedlaethol a'r Fethodoleg. Mae'r adroddiad yn rhoi'r canlyniadau y tu ôl i'r Pennawdau a mwy o fanylder. Mae pob pennawd yn dechrau gyda chrynodeb o'r canlyniadau allweddol ac yna amcangyfrif o: arwynebeddau a newidiadau cynefinoedd; trawsnewidiadau rhwng cynefinoedd, newidiadau i gyflwr y llystyfiant a newidiadau i nodweddion y pridd. Mae'r adroddiad yn cynnwys peth dadansoddiad o'r canlyniadau, ond ni fwriedir iddo esbonio'r newidiadau a ddarganfuwyd. Mae dehongli'r ffactorau sy'n rheoli a'r pwysau a achosodd y newidiadau yn waith ar gyfer y dyfodol. Mae'r casgliadau dethol a gyflwynir yma yn fodd i ddangos lled a dyfnder yr ymdriniaeth yng Nghanlyniadau'r DG.

- Arwynebedd Cynefinoedd Eang: Cynyddodd Cynefinoedd Eang Coetir Collddail, Glaswelltir wedi'i Wella, Glaswelltir Niwtral, Glaswelltir Asidig a Merdyfroedd, ond crebachodd Cynefinoedd Eang Tir Âr a Rhedyn Ungoes. Ni chynyddodd arwynebedd Cynefin Eang Adeiledig a Gerddi yn yr amgylchedd gwledig [Canlyniadau'r DG 1998-2007].
- Roedd tua 5.1 miliwn ha o Laswelltir wedi'i Wella, sef cynnydd o 6% [Canlyniadau'r DG 1998-2007]. Roedd hyn yn cyferbynnu â gostyngiad rhwng 1984 a 1998.
- Cafwyd gostyngiad o 6% yn hyd y gwrychoedd yr arferwyd eu rheoli. Daeth llawer o'r rhain yn rhesi o goed a gwrychoedd creiriol [Canlyniadau Prydain 1998-2007].
- Ni newidiodd cyfoeth blodeuol caeau, coedydd, rhosydd a gweunydd [Canlyniadau Prydain 1998-2007].
- Ni newidiodd cyfoeth blodeuol Coetir Collddail [Canlyniadau Prydain 1998-2007], ond roedd gostyngiad o 9.3% dros y cyfnod hwy [Canlyniadau Prydain 1990-2007].
- Cynyddodd rhywogaethau planhigion cystadleuol mewn caeau, coedydd, rhosydd a gweunydd, ond roedd llai o rywogaethau cynefinol [Canlyniadau Prydain 1978-2007].
- Cynyddodd amlder y rhywogaethau o blanhigion sy'n ffafrio amodau gwlypach ym mhob math o llystyfiant a samplwyd [Canlyniadau Prydain 1998-2007].
- Gyda'i gilydd, mae rhywogaethau anffroddorol o blanhigion yn cyfrif am bron i 2% o'r gorchudd llystyfiant yng nghefn gwlad [Canlyniadau Prydain 2007].
- Cynyddodd cyfoeth rhywogaethau planhigion mewn nentydd [Canlyniadau Prydain 1998-2007].
- Gwellodd nodweddion ffisegol nentydd [Canlyniadau Prydain 1998-2007].
- Cynyddodd pH y priddoedd (0-15cm) mewn cynefinoedd llai asidig [Canlyniadau Prydain 1978-2007].
- Ni newidiodd crynodiad carbon cyffredinol y pridd (0-15 cm) [Canlyniadau Prydain 1978-2007].

Gwybodaeth bellach

Mae casgliad cynhwysfawr o'r canlyniadau cryno a ddefnyddiwyd i drwytho'r adroddiadau ar lefel y DG ar gael o wefan yr Arolwg Cefn Gwlad ar ffurf graffiau. Bydd y data a ddefnyddiwyd i baratoi'r adroddiadau ar gael dan drwydded ar ôl lansio adroddiadau ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r dadansoddiad yn parhau ac ymhlith y cynnyrch pellach sydd i'w gyhoeddi mae adroddiadau ar briddoedd, dŵr croyw ac asesiad integredig, a Map Gorchudd Tir y DG.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Cefn Gwlad, gweler www.countrysidesurvey.org.uk

Neu cysylltwch â: Countryside Survey Project Office, Centre for Ecology and Hydrology, Lancaster Environment Centre, Library Avenue, Bailrigg, Lancaster LA1 4AP

Ffôn: 01524 595811; E-bost: countrysidesurvey@ceh.ac.uk

Ariannwyd yr Arolwg Cefn Gwlad yn 2007 gan bartneriaeth o gyrff a ariennir gan y Llywodraeth dan arweinyddiaeth Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

